# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 14 Hydref 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A oes tendr wedi cael ei baratoi ar gyfer adeiladu ffordd osgoi'r Drenewydd. (WAQ56590)

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pryd bydd y broses tendro yn dechrau ar gyfer adeiladu ffordd osgoi'r Drenewydd. (WAQ56591)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Hydref 2010***

Byddwn yn dechrau'r broses o benodi ein hymgynghorydd technegol yn ddiweddarach eleni gyda'r broses dendro am gontractwr yn cael ei chynnal yn ystod haf 2011.

### *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu sgrinio ar gyfer Clamydia yng Nghymru. (WAQ56588)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Hydref 2010***

Mater i Fyrddau Iechyd Lleol yw cynllunio a darparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer canfod a rheoli heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, fel chlamydia. Rwyf ar fin cyhoeddi Cynllun Gweithredu Iechyd Rhywiol ar gyfer llywio cynlluniau gwasanaethau Byrddau Iechyd Lleol. Un o'r camau gweithredu allweddol yn y Cynllun yw i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ddatblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd rhywiol, gan gynnwys profion am chlamydia. Bydd hyn yn hyrwyddo archwiliadau iechyd ataliol.

### *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu Cod Ymarfer Cymreig ar gyfer Lles Adar Hela sy'n cael eu Magu at Ddibenion Chwaraeon. (WAQ56589)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Hydref 2010***

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 22 Ionawr a 16 Ebrill 2010 a geisiodd farn ar God Ymarfer drafft ar Les Adar sy'n cael eu Magu at Ddibenion Helwriaeth. Mae'r Cod Ymarfer yn cwmpasu'r cyfnod hyd at eu rhyddhau (hynny yw, pan fyddant o dan reolaeth dyn ac felly mae darpariaethau Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gymwys).

Derbyniwyd 35 ymateb i'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

Rwyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Gymdeithas y Ffermwyr Adar Hela, y Gynghrair Cefn Gwlad a Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain i drafod y Cod.

Mae'r Cod yn cynghori ffermwyr ar nifer o feysydd gan gynnwys archwilio, hwsmonaeth a thai. Cynghorir na ddylid defnyddio cawellau uchel gwag i fagu ffesantod na chawellau bach gwag i fagu petris. Dylid llunio a rheoli pob system ddodwy a ddefnyddir ar gyfer tai adar mewn modd sy'n sicrhau lles yr adar. Dylid cyfoethogi unrhyw system mewn modd priodol.

Cyflwynwyd y fersiwn terfynol o'r Cod Ymarfer yng Nghymru ar Les Adar Hela sy'n cael eu Magu at Ddibenion Helwriaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Medi, gyda dyddiad dod i rym o 1 Ionawr 2011.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gefnogi'r diwydiant llaeth, yng ngoleuni'r ffigurau diweddar a gyhoeddwyd gan DairyCo a oedd yn datgelu bod ffermwyr llaeth yng Nghymru a Lloegr yn cael pris is fesul litr am eu llaeth eleni na'r llynedd. (WAQ56592)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Hydref 2010***

Rwy'n gwerthfawrogi ei bod yn gyfnod anodd i'r Diwydiant Llaeth yng Nghymru. Roedd prisiau cyfartalog llaeth yn 2009-10 yn llai na'r flwyddyn flaenorol, fodd bynnag, ers mis Mai, mae DairyCo wedi nodi bod prisiau wedi codi a'u bod ychydig yn uwch na'r hyn a gafwyd yr adeg hon y llynedd. Gyda galw mawr am gynnyrch llaeth a chaws, a phrisiau'n debygol o barhau'n gyfnewidiol, mae'n rhaid i'r diwydiant geisio cynyddu'r gyfran o laeth a ddefnyddir mewn cynhyrchion â gwerth ychwanegol.

Ni all Llywodraeth Cynulliad Cymru ymyrryd yn uniongyrchol â'r prisiau y mae cynhyrchwyr yn eu cael am eu llaeth na'u contractau cyflenwi, ond mae gennym nifer o systemau cymorth ar waith ar gyfer y sector.

Mae hyn yn cynnwys prosiect a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig ac a gyflwynir gan Goleg Sir Gâr a DairyCo - 'Gwella Effeithlonrwydd o fewn y Gadwyn Cyflenwi Llaeth'. Mae'r prosiect hwn yn helpu cynhyrchwyr i wella eu heffeithlonrwydd gan ei gwneud yn bosibl i'r bwlch elw rhwng y costau cynhyrchu a'r prisiau wella.

Mae'r Ganolfan Datblygu Llaeth yn darparu Rhaglenni Datblygu Cyswllt Ffermio er mwyn trosglwyddo gwybodaeth i'r diwydiant llaeth yng Nghymru, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael i helpu cynhyrchwyr i fabwysiadu arferion newydd, meincnodi perfformiad, rhannu syniadau, mynd i'r afael ag anghenion yn y farchnad ac annog arloesedd.

Rhoddwyd y cyfle i ffermwyr a oedd yn paratoi ar gyfer 'Glastir' fynd i gyfres o 40 o ddigwyddiadau hyfforddi 'ar y fferm' ledled Cymru yn ystod yr haf gyda dau ddigwyddiad ychwanegol yn benodol am laeth a gynhaliwyd er mwyn i ffermwyr ddod yn gyfarwydd â'r cynllun newydd. Bu'r digwyddiadau hyfforddi yn fodd i'r rhai a oedd yn bresennol nodi'r gwahaniaeth rhwng tir sydd wedi'i wella'n amaethyddol a thir cynefin a nodi addasrwydd opsiynau i'w busnesau eu hunain. Bydd y wybodaeth yn gymorth i ffermwyr wrth gwblhau ceisiadau Glastir.

Mae'r Cynllun Cymorth Newydd-ddyfodiaid (YESS) yn becyn a luniwyd i gynnig cefnogaeth, arweiniad a chymorth grant i annog pobl ifanc i fod yn rhan o'r diwydiant. Roedd traean o'r ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer YESS yn 2010 o'r sector llaeth yng Nghymru ac wedi'u gwasgaru dros y pedwar rhanbarth yng Nghymru.